legal services COMMISSION

Cynllun Busnes 2010/11

Cynllun Busnes y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol 2010/11

Cyflwynwyd gerbron y Senedd yn unol â pharagraff 15 Atodlen 1 Deddf Mynediad at Gyfiawnder 1999

Rhagair gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

Cyflwyniad

Mae ein cynllun busnes ar gyfer 2010/11 yn bwrpasol yn rhaglen waith blwyddyn. Mae'n adlewyrchu'r blaenoriaethau ar gyfer ein gwaith – blaenoriaethau y mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol wedi cytuno arnynt ar y cyd.

Nid yw'n ceisio gosod gwaith y flwyddyn mewn cyd-destun strategol neu bolisi ehangach, gan fod y flwyddyn hon yn amlwg yn flwyddyn o bontio strategaeth a gweledigaeth y llywodraeth flaenorol a strategaeth a gweledigaeth y llywodraeth newydd.



Syr Bill Callaghan

Cadeirydd, Y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol

Dyma'n blaenoriaethau, yn syml:

A: Darparu strwythur a fframwaith ar gyfer gweinyddu Cymorth Cyfreithiol yn y dyfodol [Gweithredu argymhellion Magee y gellir eu gweld yn – www.justice.gov.uk/publications/docs/legal-aid-delivery.pdf]

B: Darparu gwell rheoli a rheolaeth ariannol [Gweithredu'r Cynllun Stiwardiaeth Ariannol, a ddatblygwyd er mwyn mynd i'r afael â materion rheolaeth a amlygwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol]

C: Wynebu'r heriau o ran y gyllideb ac adnoddau, a chynnal mynediad i'r rheini sydd fwyaf mewn angen

D: Ymgysylltu â staff a meithrin eu gallu

Mae'r blaenoriaethau hyn yn adlewyrchu'r flwyddyn heriol iawn sydd newydd fynd heibio i'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol. Cafodd ein cyfrifon eu harchwilio oherwydd amheuon neu anghytundeb, gwnaeth Syr Ian Magee adrodd am yr angen i'n perthynas â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder newid er gwell, a dywedodd gweinidogion mae'r bwriad oedd i'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol ddod yn Asiantaeth Weithredol i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder, yn hytrach nag yn Gorff Cyhoeddus Anadrannol Gweithredol fel y mae ar hyn o bryd.

Rydym yn ymrwymo i weithio ar y cyd â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder, mewn modd adeiladol, er mwyn wynebu'n heriau a chyflawni'r cynllun blwyddyn hwn.

Carolyn Downs

Prif Weithredwr, Y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol

Y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol

Mae'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn rhoi cymorth cyfreithiol yn ogystal â chyngor a gwybodaeth gyfreithiol yng Nghymru a Lloegr drwy ddau gynllun: Y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol a'r Gwasanaeth Amddiffyn Troseddol. Mae ein gwaith yn hanfodol ar gyfer gweithredu'r systemau cyfiawnder troseddol a sifil yn deg, yn effeithiol ac yn effeithlon. Mae hefyd yn allweddol wrth helpu i ddarparu mynediad at gyngor cyfreithiol i rai aelodau o'r cyhoedd sy'n fwyaf agored i niwed.

Ein Strwythur

Mae pencadlys y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn Llundain, ac mae'n darparu gwasanaethau lleol o 13 swyddfa, gan gynnwys ein swyddfa yng Nghymru. Rydym hefyd yn gweithredu'r Gwasanaeth Amddiffynnydd Cyhoeddus o 4 swyddfa sy'n rhoi cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol i bobl mewn achosion troseddol yn yr ardaloedd hynny. Ar draws yr holl ardaloedd, rydym yn cyflogi cyfanswm o 1516 o bobl[1].

Mae ein sefydliad wedi'i gynllunio i sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar ein busnes craidd o gomisiynu gwasanaethau cyfreithiol addas ac o ansawdd da i gleientiaid, yn ogystal â chyflawni ein rhaglen o newid uchelgeisiol. Mae ein Tîm Gweithredol yn adrodd i'r Prif Weithredwr, ac mae'n cynnwys y Cyfarwyddwr Cyllid, Cynghorydd Cyfreithiol y Comisiwn, a'r Cyfarwyddwr Rheoli Achosion.

Ein Cyllid

Gweinyddu:

£96.6m yw'r dyraniad ar gyfer gweinyddu yn 2010/11, gyda chyllideb ychwanegol o £10.6m – wedi'i throsglwyddo o'r gronfa – wedi'i neilltuo ar gyfer rhoi Profion Modd Llys y Goron ar waith. £19.3m yw'r Gwariant Cyfalaf, sy'n bennaf yn wariant TG ac ystadau sy'n hanfodol er mwyn bodloni anghenion busnes.

Cronfa:

£2,012m yw cyllideb y gronfa ar gyfer 10/11. Wrth ei gymharu â'n rhagolwg diweddaraf (fel yn Adolygiad Ch3 09/10), mae hyn yn dangos diffyg posib o £156m ac rydym yn cydweithio â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn.

Ein Hamcanion Strategol

Mae gennym ni bedwar amcan, a byddwn yn gweithio gyda'n darparwyr, partneriaid cyfiawnder ar lefel leol a lefel genedlaethol, staff ac adrannau eraill o'r llywodraeth er mwyn gwneud y canlynol:

- Amcan 1 – Sicrhau'r mynediad gorau posibl at wasanaethau o ansawdd da er mwyn bodloni anghenion amrywiol y cleientiaid rydym yn eu gwasanaethu
- Amcan 2 – Darparu Cynllun Cymorth Cyfreithiol cynaliadwy a sefydliad effeithlon ac amrywiol
- Amcan 3 – Hwyluso'r broses o ddarparu cyfiawnder, a blaenoriaethau llywodraethol ehangach, yn effeithlon ac yn effeithiol
- Amcan 4 – Gweithio â'n darparwyr mewn modd teg a chadarn; a gwella ein perfformiad o ran ein darpariaeth

1 Ffigur Gorffennaf 2010 sy'n cynnwys staff parhaol a staff dros dro sydd ar y gyflogres yn unig

Dangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol ar gyfer 2010/11

Dangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol ar gyfer 2010/11

Rydym wedi lleihau nifer y prif Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) eleni i 7. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar feysydd craidd ein busnes a'n prosesau, a byddant yn caeleu mesura'u rheoli'n weithredol drwy gydol y flwyddyn, gydag adolygiadau misol gan y Bwrdd.

Dyma'r gyfres o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol a ddefnyddir i'n mesur ni:

DPA 1	Dros 1 miliwn gweithred o gymorth – Byddwn yn cyrraedd 600,000 gweithred o gymorth wyneb yn wyneb a 400,000 gweithred o gymorth dros y ffôn erbyn 31ain Mawrth 2011.
DPA 2	Cynlluniau Systemau Cyfan (mewn partneriaeth â rhannau eraill o'r system Gyfiawnder ehangach) - Dyma darged a grëwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder, gyda Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi (GLlEM), Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS), awdurdodau lleol a'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol i gyd yn chwarae rhan i leihau oedi mewn achosion goruchwylio a gofal plant. Bydd y targed cyffredinol yn cael ei weithredu dros 5 mlynedd, ond cyfraniad blwyddyn 1 yw cynyddu nifer y rhieni (a'r rheini â chyfrifoldeb rhiant) yn Lloegr sy'n cael cyngor cyn-achos (lefel 2) mewn Achosion Gofal i 15% mewn 90% o ardaloedd awdurdod lleol Nifer bresennol yr awdurdodau lleol lle mae'r targed hwn yn cael ei fodloni yw 157 (48%). Y targed yw cynyddu hyn i 294, sydd yn gynnydd o 137 o ardaloedd awdurdod lleol. Mae hyn yn golygu cynnydd o 42%. Er mwyn ceisio bodloni'r targed ymestynnol hwn, bydd y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn gweithredu drwy gydol y flwyddyn fel a ganlyn; · Adnabod darparwyr sy'n defnyddio ychydig o gyngor L2, neu ddim o gwbl, a chysylltu â hwy er mwyn cynyddu'r nifer · Rhoi data daearyddol am y defnydd o L2 i grwpiau monitro perfformiad lleol · Cyfrannu at grwpiau monitro sy'n cynnwys awdurdodau lleol, un ai drwy fod yn bresennol mewn cyfarfod, neu drwy ddarparu gwybodaeth a phapurau i gefnogi.
DPA 3	Cerdyn Sgorio Gwasanaethau Cwsmeriaid - Bodloni lefelau perfformiad penodol mewn o leiaf 10 targed o 15. Mae'r meysydd i'w mesur yn cynnwys ansawdd ein gwaith, a chyflymder prosesu ac ymateb. Mae'r targedau ymestynnol hyn yn cynnwys prosesu ceisiadau a mesurau, a chyfraddau gwallau

DPA 4	Gweithredu er mwyn byw o fewn y gyllideb a ddyrennir ar gyfer y gronfa - Y targed yw cwblhau camau gweithredu a gytunwyd arnynt gyda'r Weinyddiaeth Cyfiawnder mewn cyfarfodydd adolygu cyllid misol, erbyn y dyddiad terfyn penodedig. Bydd y camau gweithredu'n cynnwys pethau y gall y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol eu gwneud cyn pen y flwyddyn er mwyn gwella'r diffyg yng nghyllideb y gronfa. Cytunir ar gamau gweithredu newydd bob mis, a byddant yn cael cyfradd RAG yn erbyn lefelau goddefiad y cytunwyd arnynt. Mae rhagolwg Ch4 09/10 ar gyfer 10/11 yn dangos bod sefyllfa bron yn arian yn £2,165m, gyda diffyg o £153m. Bydd y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn parhau i gydweithio â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ar y mater hwn.
DPA 5	Byw o fewn y gyllideb Weinyddu - Byddwn yn byw o fewn y gyllideb weinyddu a ddyrennir i ni, sef £107.2m (gan gynnwys Profion Modd Llys y Goron), a byddwn yn tracio amrywiant flwyddyn hyd yma ac amrywiant blwyddyn lawn i'n cyllideb
DPA 6	Rhoi cerrig milltir y cynllun gweithredu stiwardiaeth ar waith - Y targed yw cwblhau'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt sy'n ffurfio rhan o gynllun gweithredu stiwardiaeth ariannol y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, er mwyn cryfhau rheolaeth ariannol a lleihau'r perygl y bydd yn rhaid archwilio'r cyfrifon yn y dyfodol oherwydd amheuon neu anghysondeb. Mae'r camau gweithredu y byddwn yn ymgymryd â hwy yn cynnwys gweithredu cam 1 argymhellion Ernst a Young (sydd wedi nodi gwelliannau i reolaethau ariannol ar gyfer y gronfa cymorth cyfreithiol a'r gyllideb weinyddu), rhoi camau gweithredu'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar waith, a sefydlu'r system cyfriflyfr cyffredinol newydd.
DPA 7	Cerdyn sgorio pobl – Bodloni'r mesurau pobl canlynol; i. Llwyddo i sicrhau cyfartaledd o 7.66 neu lai o ddiwrnodau absenoldeb salwch mewn blwyddyn fesul unigolyn ii. Sicrhau bod gan 98% o weithwyr a ddylai fod wedi cael Adolygiad Datblygiad Perfformiad ar gyfer cylchoedd Mai/Mehefin a Rhagfyr/Ionawr raddfa wedi'i chofnodi ar y system Adnoddau Dynol iii. Lleihau cyfanswm y cwynion, yr apeliadau a'r tribiwnlysoedd 15% o'i gymharu â 2009/10

Rhaglen waith fanwl ar gyfer 2010/11

A. Darparu strwythur a fframwaith ar gyfer gweinyddu Cymorth Cyfreithiol yn y dyfodol [Gweithredu Magee]

B. Darparu gwell rheoli a rheolaeth ariannol [Gweithredu'r Cynllun Stiwardiaeth Ariannol]

C. Wynebu'r heriau o ran y gyllideb ac adnoddau, a chynnal mynediad i'r rheini sydd fwyaf mewn angen

D. Ymgysylltu â staff a meithrin eu gallu

Mae'r amserlen ddilynol yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn, ac mae'n dangos y cerrig milltir allweddol a'r targedau o ran cyflawni yr ydym wedi ymrwymo i'w cyrraedd. Mae hon yn rhaglen waith heriol, ac mae'n rhaid i ni reoli'r risgiau cysylltiedig yn effeithiol er mwyn ei chyflawni fel y bwriad. Rydym eisoes wedi symleiddio strwythur y Bwrdd a'r Pwyllgor, er mwyn rhoi'r sylw a'r adnoddau sydd ar gael i fonitro a rheoli'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt. Byddwn yn sefydlu ac yn cynnal lefel briodol o ymddiriedaeth a chefnogaeth sy'n meithrin adrodd a thrafod gonest a chadarn ynghylch materion a risgiau rhwng rheolwyr a staff, Comisiynwyr, swyddogion y Weinyddiaeth Cyfiawnder a Gweinidogion. Rydym yn benderfynol o lwyddo yn hyn o beth, ac yng ngoleuni'r hunanasesiad a hwyluswyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ynghylch effeithiolrwydd ein Llywodraethu ar ffurf Bwrdd, byddwn yn adolygu hyn yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn.

A: Darparu strwythur a fframwaith ar gyfer gweinyddu Cymorth Cyfreithiol yn y dyfodol [Gweithredu Magee]

1. Rhoi'r cynllun y cytunwyd arno, sef Cynllun Gweithredu Magee, ar waith	
Gweithgareddau Allweddol	Amser
O fewn 3 mis	
Adnabod a phenodi Rheolwyr Ffrydiau Gwaith [Cwblhawyd]	Mai 2010
Llywodraethu – adolygu maint y Comisiwn, ystyried a dyrannu cyfrifoldebau comisiynwyr unigol ac egluro statws y Prif Swyddog Gweithredol a'r Cyfarwyddwr Cyllid fel aelodau o'r Bwrdd [Cwblhawyd]	Mai 2010
Y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder i gytuno ar yr argymhellion hynny y dylid eu gweithredu [Cwblhawyd]	Mehefin 2010
Canlyniadau ac allbynnau allweddol wedi'u diffinio ar gyfer pob ffrwd waith [Gwaith ar y gweill]	Mehefin 2010
Cyfrifoldeb ar y cyd rhwng yr Ysgrifennydd Parhaol a Chadeirydd y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol o ran meithrin perthynas adeiladol, cefnogol, ymddiriedol a heriol ar bob lefel rhwng y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder. [Cwblhawyd]	Mehefin 2010
O fewn 6 mis	
Consensws y Weinyddiaeth Cyfiawnder/Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol ar y ffordd ymlaen	Gorffennaf 2010
Dogfen fframwaith i'w chytuno, yn canolbwyntio ar atebolrwydd a chyfrifoldebau gwneud penderfyniadau, cynnydd a rhagolygon a rheolaeth ariannol	Gorffennaf 2010
Y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol i gymryd rhan mewn adolygiad annibynnol o gynnydd yn erbyn y cynllun a fydd yn cael ei gomisiynu gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder – i gynnwys cynigion cychwynnol ar gyfer darparu mwy o ganolbwynt ar faterion a buddiannau darpariaeth gyfreithiol yng Nghymru. [Gwaith ar y gweill wrth edrych yn sylfaenol ar gymorth cyfreithiol gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder]	Medi 2010

2. Datblygu Achos Busnes ar gyfer gweithredu argymhelliad Magee ynghylch symud i statws Asiantaeth Weithredol	
Gweithgareddau Allweddol	Amser
O fewn 3 mis	
Datblygu buddiannau manwl wedi'u diffinio gyda strategaeth wireddu [Gwaith ar y gweill]	Mehefin 2010
O fewn 6 mis	
Cyflwyniad i'r Gweinidogion ynghylch y symud i fod yn Asiantaeth Weithredol a chynigion ar gyfer newid y cytunwyd arnynt o fewn 18 mis	Gorffennaf 2010
O fewn 12 mis	
Adolygiad Gât 0 o'r Rhaglen er mwyn cadarnhau'r hyn y gellir ei gyflawni a chydweddu strategol	Hydref 2010
Cyhoeddi strategaeth ar gyfer yr Asiantaeth, sy'n cynnwys – eglurhad o'r berthynas â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder, cyfrifoldeb dros ledaenu a datblygu polisi, gweithredu cynllunio ariannol, rhagolygon a rheoli cyllideb	Chwefror 2011
3. Diffinio gweithdrefnau polisi a llywodraethu'r sefydliad newydd	
O fewn 3 mis	
Eglurhad ynghylch gwneud polisïau – Y Weinyddiaeth Cyfiawnder/Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol i sefydlu canolbwynt sefydliad sengl [Cwblhawyd]	Mehefin 2010
O fewn 6 mis	
Cytundeb terfynol ynghylch gwneud penderfyniadau a pholisïau a'r strwythur cysylltiedig	Awst 2010
Sicrhau bod gwaith cefnogol ar gynigion yn ymwneud ag eitemau sydd i fynd i'r Mesur Cymorth Cyfreithiol wedi'i gwblhau	Medi 2010

Blaenoriaethau ar gyfer 2010/11

A: Darparu strwythur a fframwaith ar gyfer gweinyddu Cymorth Cyfreithiol yn y dyfodol [Gweithredu Magee] parhad

4. Diffinio prosesau a systemau gweithredol y sefydliad newydd (gan gynnwys TGCh)	
Gweithgareddau Allweddol	Amser
O fewn 6 mis	
Cytuno ar yr achos ar gyfer materion effeithlonrwydd eraill – ar ôl ystyried rhannu gwasanaethau Cyfreithiol, Ariannol, Adnoddau Dynol, TG ac Ystadau, ac ystyried y potensial ar gyfer gwasanaethau allanol	Medi 2010
Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol a GLlEM i ystyried rhannu cyfrifoldebau er mwyn sicrhau bod prosesau a gweinyddu mor effeithlon ag sy'n bosib	Medi 2010
O fewn 12 mis	
Cwblhau strategaeth IS ddrafft yn cynnwys Cynllunio Adnoddau Menter a gofynion Gwybodaeth Reoli	Rhagfyr 2010
Bydd y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn canolbwyntio ar ddatblygu ei arbenigedd a'i gapasiti fel corff Comisiynu	Tachwedd 2010
Bydd y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn datblygu ac yn gweithredu cynigion i sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng cynnal rheolaeth ddigonol a rhoi lle i ddarparwyr ddarparu gwasanaethau'n effeithiol ac yn effeithlon, ac i annog arloesedd	Mawrth 2011
Cwblhau asesiadau o'r Effaith ar Breifatrwydd ar gyfer pob system a phroses "sydd i ddod"	Ionawr 2011
5. Diffinio gofynion gallu a chapasiti gweithlu'r sefydliad newydd	
O fewn 12 mis	
Cwblhau cynigion yng nghyswllt Tâl, Telerau ac Amodau a Phensiwn yn derfynol	Rhagfyr 2010
Cwblhau trafodaethau ynghylch perthynas â gweithwyr, gan gynnwys rheoliadau trosglwyddo ymgymeriadau diogelu cyflogaeth (TUPE)	Rhagfyr 2010
Strategaeth Adnoddau Dynol ddrafft i'w llunio ar gyfer y sefydliad newydd er mwyn bod yn gyson â pholisïau a gweithdrefnau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder	Mawrth 2011
Paratoadau ar gyfer symud staff dethol o'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol i'r corff newydd	Mawrth 2011
Recriwtio allanol i fodloni diffygion o ran capasiti a sgiliau blaenoriaethol, i'w gwblhau	Mawrth 2011
6. Diffinio gofynion y seilwaith a'r ystâd	
O fewn 12 mis	
Cwblhau Strategaeth Rheolaeth Ystadau drafft, a chytuno â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn ei chylch. Bydd ei rhoi ar waith yn sicrhau bod y ffurfweddiad a'r strwythur mwyaf effeithlon ar waith i gefnogi'r sefydliad newydd [yn dibynnu ar gynnydd gwaith cynllunio'r sefydliad]	Mawrth 2011

B: Darpary gwell rheoli a rheolaeth ariannol

1. Gwella ein systemau, ein gwiriadau a'n rheolaethau yn barhaus er mwyn sicrhau dulliau talu cadarn ac i gynhyrchu cyfrifon y gellir eu harchwilio	
Gweithgareddau Allweddol	Amser
O fewn 3 mis	
Paratoi cyfrifon 09/10 ar gyfer eu harchwilio gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol [Cwblhawyd]	Mehefin 2010
Gweithredu argymhellion Cam 1 'atebion cyflym' ynghylch gwell rheolaethau ariannol, o adolygiad Ernst a Young [Cwblhawyd]	Mehefin 2010
O fewn 6 mis	
Diffinio atebion cyflym (effaith arian parod) a'u rhoi ar waith	Gorffennaf 2010
Gweithredu argymhellion Cam 1 ynghylch gwell rheolaethau ariannol, o adolygiad Ernst a Young	Gorffennaf 2010
O fewn 12 mis	
Gweithredu argymhellion Cam 2 ynghylch gwell rheolaethau ariannol, o adolygiad Ernst & Young	Mawrth 2011
Cynllunio ar gyfer paratoi cyfrifon 10/11	Mawrth 2011
2. Adennill arian wedi'i ordalu yn effeithlon lle bo hynny'n briodol, ac adennill dyledion sy'n ddyledus i'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol	
O fewn 3 mis	
Adennill £5m o arian wedi'i ordalu (08-09) [Gwaith ar y gweill – roedd £4.75m wedi'i adennill erbyn Gorffennaf 2010]	Mehefin 2010
Adolygu cam 1 y dangosfwrdd darparwyr ar gyfer cwmnïau sydd wedi cael asesiad risg – gyrru adferiad ariannol a newid ymddygiad [Gwaith ar y gweill]	Mehefin 2010
O fewn 6 mis	
Dechrau cam 2 y dangosfwrdd darparwyr ar gyfer cwmnïau sydd wedi cael asesiad risg	Medi 2010
Cwblhau adolygiad a gweithredu newidiadau manwl i fethodoleg dangosfwrdd darparwyr	Medi 2010
O fewn 12 mis	
Adennill £5m o arian wedi'i ordalu (09-10)	Mawrth 2011
Adennill £2.5m o arian wedi'i ordalu (10-11 a nodwyd yn y flwyddyn)	Mawrth 2011
Adolygu cam 2 a dechrau cam 3 rhaglen stiwardiaeth ariannol Rheoli Perthynas	Mawrth 2011
Lleihau'r ddyled sy'n ddyledus i'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol [achosion Gwasanaethau Adennill] o £20m	Mawrth 2011
3. Gweithio gyda'n darparwyr mewn modd teg ac effeithiol er mwyn rheoli eu perfformiad	
O fewn 3 mis	
Cyhoeddi canllawiau cam 1 i ddarparwyr [Cwblhawyd]	Gorffennaf 2010
4. Rhoi Cynllun Gweithredu PAC ar waith	
Cwblhau pob gweithred yn unol â'r amserlen a gyhoeddwyd	Ionawr 2011

Blaenoriaethau ar gyfer 2010/11

C: Wynebu'r heriau o ran y gyllideb ac adnoddau, a chynnal mynediad i'r rheini sydd fwyaf mewn angen

1. Rhoi Prosiectau Diwygio Cymorth Cyfreithiol ar waith (gan gynnwys: Profion Modd Llys y Goron, Contractau Sifil/Trosedd, Cam 2 Achosion Drudfawr Iawn)	
Gweithgareddau Allweddol	Amser
O fewn 3 mis	
Diwygio Cyllid Cymorth Cyfreithiol – gweithredu gostyngiadau i 148 o ffioedd sefydlog mewn gorsafoedd heddlu (gan gynnwys gorchymyn cyllido a newidiadau i'r system rheoli cyflenwyr) [Cwblhawyd]	Ebrill 2010
Nod Ansawdd Arbenigol allanol [Cwblhawyd]	Mai 2010
O fewn 6 mis	
Gorffen cyflwyno Profion Modd Llys y Goron yn genedlaethol	Gorffennaf 2010
Gweithredu contractau trosedd 2010 a chynlluniau ffioedd cyfraith carchardai	Gorffennaf 2010
Gorffen gweithredu trefniadau newydd ar gyfer y cynllun Achosion Drudfawr Iawn (cam 2)	Gorffennaf 2010
Diwygio Cyllid Cymorth Cyfreithiol – Trosglwyddo trefniadau tâl traddodi o'r system rheoli cyflenwyr i Ffi Ymgyfreithwyr Llys y Goron (gan gynnwys gorchymyn cyllido ym mis Ebrill, ateb TG dros dro ym mis Mehefin ac ateb TG llawn ym mis Medi)	Medi 2010
Diwygio Cyllid Cymorth Cyfreithiol – gweithredu gostyngiadau i Gynllun Ffioedd Graddedig ar gyfer Eiriolwyr (gan gynnwys gorchymyn cyllido a datrysiad TG. Bydd yr ateb TG yn cael ei ddarparu ym mis Medi)	Ebrill a Medi 2010
O fewn 12 mis	
Rhoi Contractau Sifil 2010 a cham 2 ffioedd sifil ar waith	Hydref 2010
2. Rhoi Prosiectau Newid Mewnol ar waith (gan gynnwys: Gweddnewid TG, Ffurflenni ar-lein/ Gweddnewid Darpariaeth)	
O fewn 3 mis	
Gorffen cyflwyno'r gwaith gweddnewid TG [Cwblhawyd]	Mehefin 2010
Cytuno ar ofynion system weithredol a chyfrifyddu ariannol integredig [Gwaith ar y gweill]	Mehefin 2010
O fewn 6 mis	
Tâl Llys y Goron – Trosglwyddo Cynllun Ffioedd Graddedig ar gyfer Eiriolwyr o GLIEM i'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol	Medi 2010
Gorffen y rhaglen gweddnewid TG llawn	Rhagfyr 2010
O fewn 12 mis	
Gorffen cam rhyddhau 1 (Ffurflenni ar-lein) fel rhan o'r Rhaglen Ddarparu Integredig	Rhagfyr 2010

Darparu rheolaeth o achosion sifil a chyfrifyddu ariannol yn barod ar gyfer cam rhyddhau 2 y Rhaglen Ddarparu Integredig	Mawrth/Ebrill 2011
3. Helpu i ddatrys problemau ar y cyfle cyntaf (cyngor dros y ffôn a dros y rhyngrwyd, cyfryngu, dargyfeirio o'r llysoedd)	
Gweithgareddau Allweddol	Amser
O fewn 6 mis	
Gweithredu'r ffordd ymlaen y cytunwyd arni yn dilyn cynlluniau cyfryngu peilot yn y llys	Medi 2010
O fewn 12 mis	
Fel y cytunwyd gyda phartneriaid yn y Weinyddiaeth Cyfiawnder, cydweithio â mentrau 'dargyfeirio o'r llysoedd' a gwerthuso effeithiolrwydd	Mawrth 2011
4. Rhoi cyngor cyfreithiol o ansawdd da i'r rheini y mae arnynt ei angen	
O fewn 3 mis	
Adolygu cyflawniad PDS o ran niwtraliaeth costau erbyn y dyddiad targed [Cwblhawyd]	Mehefin 2010
O fewn 6 mis	
Sefydlu gwasanaeth effeithiol gan y darparwyr trosedd newydd	Hydref 2010
O fewn 12 mis	
Darparu 1 miliwn gweithred o gymorth – 600,000 wyneb yn wyneb, 400,000 gweithred dros y ffôn	Mawrth 2011
Sefydlu gwasanaeth effeithiol gan y darparwyr contractau sifil newydd	Mawrth 2011
Darparu gwasanaeth o ansawdd da drwy PDS	Mawrth 2011
5. Gweithredu cylch cynllunio corfforaethol integredig, wedi'i angori gan fframwaith rheoli perfformiad cadarn	
O fewn 3 mis	
Gorffen ail-flaenoriaethu rhaglenni a phrosiectau [Cwblhawyd]	Mehefin 2010
Cytuno ar agwedd y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol at agenda llwybr clir Trysorlys Ei Mawrhydi, a beth fydd y goblygiadau i'r Comisiwn [Cwblhawyd]	Mehefin 2010
O fewn 6 mis	
Cyhoeddi Dangosyddion Perfformiad Allweddol a chynllun busnes 2010-11	Gorffennaf 2010
Cwblhau adolygiad interim gorffenedig o berfformiad busnes, gan gynnwys dilysu Dangosyddion Perfformiad Allweddol	Medi 2010 (ac adrodd am ôl-ddyledion ym mis Hydref)
Cynllunio ar gyfer cylch cynllunio 2011-12 integredig	Medi 2010
O fewn 12 mis	
Gweithredu camau nesaf y strategaeth rheoli gwybodaeth, gan gynnwys gwell offer	Hydref 2010
Cwblhau'r cyfrifon adnoddau chwarterol – bod yn gyson â llwybr clir Trysorlys Ei Mawrhydi/ sefydlu proses adrodd chwarterol	Rhagfyr 2010

Blaenoriaethau ar gyfer 2010/11

D: Ymgysylltu â'n pobl a meithrin eu gallu

Sut beth fyddai llwyddiant?

- Mae staff y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn credu mewn cynlluniau a chynigion pontio
- Bydd unigolion yn teimlo eu bod wedi'u harwain yn dda, gyda pherfformiad cryfach i'w weld ar draws y Comisiwn
- Bydd staff yn ystyried bod ganddynt fynediad at y cyfleoedd hyfforddi sy'n angenrheidiol er mwyn datblygu a gwella
- Bydd staff yn credu eu bod yn cael eu cefnogi gan y sefydliad, fel eu bod yn gallu cyflawni'u swyddi
- Byddwn yn cymryd rhan mewn rhwydwaith Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau sy'n dysgu o arfer dda ac sy'n cael budd o gefnogaeth ac arweiniad gan gyfoedion
- Byddwn wedi lleihau 3% ar lefelau absenoldeb oherwydd salwch o'i gymharu â meincnod 2008/09
- Bydd gan staff amcanion a graddfa Adolygiad Datblygiad Personol ar gyfer cylchoedd Mai/Mehefin a Thachwedd/Rhagfyr

1. Cynyddu a chryfhau gallu ein pobl i gyd	
Gweithgareddau Allweddol	Amser
O fewn 3 mis	
Lansio canllawiau diwygiedig a symlach ar Adolygiad Datblygiad Personol i staff, gyda dolenni at offer ac adnoddau [Cwblhawyd]	Mai 2010
Datblygu cynlluniau gweithredu Arolwg Staff 2009 a'u rhoi ar waith ym mhob adran, a sefydlu mesurau ar gyfer monitro ac adrodd am gynnydd [Cwblhawyd]	Mehefin 2010
Pob aelod o'r Uwch Dîm Rheoli i gael cyfarfod un i un gyda Carolyn Downs er mwyn trafod datblygiad personol a chynlluniau wrth symud ymlaen [Cwblhawyd]	Mehefin 2010
Lansio pecyn dysgu ar-lein ar gyfer y staff i gyd er mwyn darparu adnodd dysgu sydd ar gael yn rhwydd [Cwblhawyd]	Mehefin 2010
O fewn 6 mis	
Dadansoddi'r bwlch mewn sgiliau rheolaeth ariannol a chytuno ar raglen ddatblygu	Gorffennaf 2010
Byddwn yn cysylltu â fframwaith hyfforddi Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder er mwyn gwella'r ddarpariaeth o ran Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau a newid gallu	Medi 2010
Lansio rhaglen i ddatblygu'r gallu i arwain, a fydd yn cynnwys adborth 360 gradd	Medi 2010
Bydd staff yn cwblhau'r pecyn hyfforddi Rheoli Risg Ar-lein (y targed yw 80% o'r staff)	Medi 2010
Lansio Rhaglen Pedwar – Sgiliau Rheoli	Medi 2010
Lansio cyflwyno hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	Medi 2010
Gweithgareddau Allweddol	Amser

O fewn 12 mis	
Byddwn yn cysylltu â Fframweithiau Pobl y Gwasanaeth Sifil er mwyn cysoni ein gwaith a rhannu ein hadnoddau a'n gallu	Medi 2010
Datblygu dealltwriaeth ehangach o sgiliau rheoli arian – yn enwedig ymysg uwch reolwyr a rheolwyr llinell, gan gynnwys drwy raglenni datblygu mewnol, rhaglenni'r Ysgol Lywodraethu Genedlaethol a drwy ddefnyddio Academi Gyfiawnder y Weinyddiaeth Cyfiawnder	Rhagfyr 2010
Gwella sgiliau arwain yr Uwch Dîm Rheoli – gan gynnwys adborth 360 gradd i'w ymgorffori mewn cynlluniau datblygiad personol – dylai staff yr asesir nad ydynt yn arweinwyr medrus (wrth adolygu perfformiad) wella neu symud ymlaen heb oedi	Mawrth 2011
Gwella gallu'r rheolwyr i ddangos rôl hyfforddi, sy'n cynnwys rhoi negeseuon cadarn a pharatoi staff at y dyfodol	Mawrth 2011
2. Cynyddu a chryfhau ymgysylltiad a hyder y staff	
O fewn 3 mis	
Cyhoeddi cynllun busnes, a'i egluro i'r staff er mwyn sefydlu blaenoriaethau a chadw canolbwynt ar y busnes	Gorffennaf 2010
Datblygu mecanwaith monitro ac adrodd, a'i fewnosod er mwyn sicrhau bod yr Uwch Dîm Rheoli a'r staff yn ymwybodol o'r ddarpariaeth gorfforaethol yn erbyn y cynllun [Cwblhawyd]	Gorffennaf 2010
Cyhoeddi strategaeth gyfathrebu fewnol ddiwygiedig – er mwyn ymgysylltu â staff a chadw canolbwynt ar y ddarpariaeth a'r llwyddiannau sy'n gysylltiedig â stiwardiaeth, adferiad ariannol, a gweledigaeth y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol	Gorffennaf 2010
Cefnogi cynlluniau cydnabod lleol er mwyn cydnabod perfformiad eithriadol yn erbyn Siarter y Gweithwyr	Gorffennaf 2010
O fewn 6 mis	
Mae sesiynau 'sgwrsio' yn cael eu cynnal gyda'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol fel y bo'n briodol, er mwyn sicrhau cyfathrebu dwyffordd ynglŷn â'r pontio	Medi 2010
Ymgysylltu â'r Uwch Dîm Rheoli a rheolwyr busnes allweddol er mwyn adolygu a chytuno ar agwedd newydd at gynllunio at y dyfodol 2011-14, i sicrhau bod y staff yn rhan o ddatblygu cynllun busnes a chynllun corfforaethol gwbl integredig ar gyfer 2011/12	Medi 2010
O fewn 3 mis	
Cyfarwyddwr Cyfathrebu wedi'i benodi ac yn ei swydd [Cwblhawyd]	Mehefin 2010
Datblygu a chryfhau'r swyddogaeth Archwilio Mewnol, drwy recriwtio drwy dargedu, defnyddio contractau allanol a lansio hyfforddiant pellach a datblygu'r tîm presennol ymhellach (yn ôl y gofyn). [Cwblhawyd]	Mehefin 2010
Parhau i wella effeithiolrwydd y Partner Busnes Adnoddau Dynol enghreifftiol [Cwblhawyd]	Mehefin 2010
Parhau i sefydlu a datblygu'r Model Gwasanaethau a Rennir [Cwblhawyd]	Mehefin 2010

Blaenoriaethau ar gyfer 2010/11

Gweithgareddau Allweddol	Amser
O fewn 6 mis	
Sefydlu cysylltiadau datblygiad proffesiynol ar draws y Weinyddiaeth Cyfiawnder, a'u rhoi ar waith (gan gynnwys Cyfathrebiadau a TG)	Gorffennaf 2010
Rhoi rhaglenni Datblygiad Proffesiynol ar gyfer grwpiau proffesiynol allweddol ar waith, a defnyddio rhwydweithiau ehangach y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn fwy effeithiol (lle bo hynny'n briodol)	Medi 2010
Datblygu a chryfhau sgiliau ariannol proffesiynol o fewn yr Adran Gyllid	Awst 2010
Rhoi Adolygiad Datblygiad Personol un i un, a graddfa ar gyfer cylch Mai/Mehefin i'r staff	Awst 2010
Cryfhau gallu o fewn y swyddogaeth Adnoddau Dynol er mwyn cefnogi'r pontio i'r model busnes newydd	Medi 2010
O fewn 12 mis	
Bydd y Swyddfa Rhaglen Gorfforaethol yn darparu cefnogaeth hyblyg i newid rhaglenni rheoli – sy'n cael ei gwerthfawrogi ac sy'n ychwanegu gwerth	Mawrth 2011
Sefydlu'r ethos "partneriaid proffesiynol yn sicrhau busnes llwyddiannus" ym mhob swyddogaeth gwasanaeth corfforaethol	Mawrth 2011
Cysoni gwell a chydweithio'n agosach â theulu Adnoddau Dynol y Weinyddiaeth Cyfiawnder	Rhagfyr 2010
Rhoi Adolygiad Datblygiad Personol un i un, a graddfa ar gyfer cylch Tachwedd/Rhagfyr i'r staff	Chwefror 2011
Bydd absenoldebau oherwydd salwch wedi gostwng 3% (yn erbyn lefelau 08/09) o ran dyddiau ar gyfartaledd fesul unigolyn – bydd y ffigur blynyddol yn cael ei gofnodi ar gerdyn sgorio – bydd ffigurau misol yn cael eu cofnodi i gefnogi rheoli perfformiad	Mawrth 2011

Gellir llwytho'r Cynllun Corfforaethol o www.legalservices.gov.uk dan About us > Our publications

Gellir llwytho fersiwn Gymraeg o'n hamcanion strategol a'n targedau o www.legalservices.gov.uk dan About us > Regional information > Wales

Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol
www.legalservices.gov.uk